

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 14 Rhagfyr 2018

STATWS: CYDYMFFURFIO

CATEGORI: POLISI

Teitl: Deintyddiaeth y GIG - Archwilio Clinigol, Adolygiad Cymheiriaid a Gwella Ansawdd

Dyddiad Adolygu: Rhagfyr 2021

I'w weithredu gan:
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Angen gweithredu erbyn: Ar unwaith

Anfonwr: Coletti Bridgman, Prif Swyddog Deintyddol
Karin Phillips, Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer Gofal Sylfaenol

Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

Lisa Howells, Dirprwy Brif Swyddog Deintyddol
Gofal Sylfaenol ac Arloesi
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NC

Ffôn: 0300 0251482

lisa.howells4@gov.wales

Amgaeedig: Dim

Cylchlythyr Iechyd Cymru ar Archwilio Clinigol, Adolygiad Cymheiriaid a Gwella Ansawdd

Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yn cymryd lle:

- WHC (2001)055 – Diwygiad i'r Datganiad o Dâl Deintyddol (SDR) datblygiad proffesiynol parhaus, archwilio clinigol, adolygiad cymheiriaid a system sicrhau ansawdd.
- Cyhoeddwyd arweiniad pellach ym mis Mawrth 2006: Arweiniad ar gyfer archwilio clinigol ac adolygiad cymheiriaid yng ngwasanaethau deintyddol cyffredinol Cymru.

1. Crynodeb

Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru yn disgrifio system ddiwygiedig ar gyfer defnyddio cyllid presennol Llywodraeth Cymru yn effeithiol i gynnal archwiliad clinigol, adolygiad cymheiriaid a gwella ansawdd mewn ymarfer deintyddol cyffredinol. Mae gwella ansawdd yn cynnwys defnyddio offer a methodolegau cenedlaethol ar gyfer gwella, fel y'u datblygwyd ac y'u hyrwyddwyd gan Gwella Gwasanaeth Mil o Fywydau, Hyd yma, bu'r cyllid ar gael i ddeintyddion yn unig ar gyfer cynnal archwiliad ac adolygiad cymheiriaid. Mae arnom eisiau i'r cyllid gefnogi pob aelod o'r tîm deintyddol clinigol a chefnogi defnyddio'r holl fethodolegau gwella ansawdd cydnabyddedig. Caiff y cyllid ei weinyddu gan Adran Ddeintyddol Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

(Mabwysiadwyd y term "Archwiliad Clinigol" yn wreiddiol yn y cyd-destun hwn yn 2001. Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yn cyfeirio drwyddo draw at "archwiliad" i adlewyrchu'r ffaith fod archwiliad a chylch archwilio yn cael eu defnyddio i adolygu amrywiaeth eang o bynciau yn ymwneud â gofal deintyddol yn ychwanegol at ymarfer clinigol).

2. Camau gweithredu sydd eu hangen:

Gofynnir i Fyrddau Iechyd nodi cynnwys y Cylchlythyr hwn:

- er mwyn hybu dealltwriaeth o fethodolegau gwella ansawdd mewn ymarfer deintyddol cyffredinol; ac
- annog timau deintyddol lleol i ddefnyddio'r offer a'r systemau cenedlaethol.

Mae gofyn i Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC):

- hyrwyddo'n effeithiol ac asesu sut mae holl aelodau'r timau deintyddol yn gwella ansawdd; a
- sefydlu systemau i sicrhau bod timau deintyddol yn cael eu had-dalu mewn ffordd brydlon a phriodol am ddefnyddio offer gwella ansawdd yn effeithiol a dangos dealltwriaeth o fethodolegau gwella ansawdd.

Gofynnir i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) nodi cynnwys y Cylchlythyr hwn a defnyddio ei phroses arolygu ymarfer deintyddol fel cyfrwng i hyrwyddo'r defnydd o offer gwella ansawdd.

Dylai timau deintyddol ddefnyddio'r systemau a'r prosesau sydd ar gael yng Nghymru i ymgymryd â gwella ansawdd mewn ymarfer. Dylai timau fod yn barod i rannu syniadau ynglŷn â gwella ansawdd a dulliau o godi safon ansawdd a diogelwch y timau deintyddol a'r cleifion.

O dan y trefniant presennol, Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG - Gwasanaethau Deintyddol (NHS BSA) sy'n ymgymryd â'r broses o ad-dalu i ddeintyddion sydd â chytundeb y GIG am archwiliad/adolygiad cymheiriaid. Bydd y system hon yn parhau am y dyfodol rhagweladwy. Fodd bynnag, bydd AaGIC yn adolygu'r system yn gyson ac efallai y bydd yn penderfynu datblygu ei broses ei hun ar gyfer ad-dalu maes o law. Er y bydd cyllid yn dal i gael ei dalu i ddeintyddion, disgwylir y bydd AaGIC, pan fo angen, yn dyrannu'r cyllid i aelodau eraill y tîm deintyddol fel y nodir yn adran 5.

3. Cyflwyniad

Mae Archwilio ac Adolygiad Cymheiriaid yn systemau, sydd wedi hen ymsefydlu, i wella ansawdd mewn gofal iechyd ac mewn deintyddiaeth.

Daeth "Archwiliad Clinigol" yn wreiddiol yn derm am ofyniad telerau gwasanaeth i ddeintyddion ym mis Medi 2001, gyda'r nod gyffredinol o annog Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol unigol (YDC) i archwilio agweddau gwahanol ar eu hymarfer; nodi meysydd o arfer da a chydymffurfio â safonau; yn ogystal â meysydd i'w gwella. Er mwyn cynorthwyo deintyddion i gwrdd â thelerau eu gwasanaeth, sefydlodd Llywodraeth Cymru fecanwaith cyllido i hybu ymhellach y defnydd o archwilio clinigol ac adolygiad cymheiriaid. Mae'r gronfa Archwilio Clinigol ac Adolygu Cymheiriaid (ACAC) wedi parhau hyd heddiw.

Gweinyddir y rhaglen gan adran deintyddol AaGIC a gwneir taliadau i ddeintyddion yn ganolog drwy gyfrwng NHS BSA. Mae deintyddion sydd â chytundeb y GIG a/neu rif perfformiwr yn gymwys i hawlio cyllid ar ôl cwblhau archwiliad llawn ac effeithiol, fel y'i haseswyd gan addysgwyr gwella ansawdd deintyddiaeth AaGIC.

Ar hyn o bryd, gall deintyddion hawlio cyllid am archwiliad unwaith mewn cylch o 3 blynedd, er mai â chyllid yn unig y mae a wnelo'r fframwaith hwn a bod y rhan fwyaf o dimau deintyddol yn ymgymryd â gwella ansawdd fel rhan o broses o wella'n barhaus. Mae'r cyllid yn ad-dalu i'r deintydd am yr amser a dreuliwyd yn cynllunio ac wedyn yn cynnal archwiliad ac adrodd amdano wrth AaGIC. Nid oes cyllid ar gael i aelodau eraill y tîm deintyddol (Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol), er bod yr holl dîm wedi ei gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol

Cyffredinol (CDC) a bod rhaid iddynt gwrdd â'r gofynion angenrheidiol ar gyfer cofrestru. Ni all deintyddion sy'n gweithio mewn practis cwbl breifat na'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol (GDC) hawlio cyllid, er bod yr holl gyfranogwyr yn gymwys i hawlio Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), sy'n cyfrannu i ofynion cofrestriad parhaus y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Ni cheir rhoi cyllid ar hyn o bryd am waith gwella ansawdd a gynhelir gan aelodau eraill y tîm deintyddol. Mae'r system bresennol felly'n annheg. Mae cynllun Archwilio Clinigol ac Adolygu Cymheiriaid (ACAC) wedi cefnogi deintyddion gydag archwilio clinigol yn llwyddiannus, er nad yw adolygu cymheiriaid yn cael ei ddefnyddio gymaint erbyn hyn. Gall deintyddion gynnal eu harchwiliadau eu hunain; archwiliad allan o "lyfr coginio archwilio" AaGIC, neu un o archwiliadau cenedlaethol Cymru gyfan.

Yr archwiliadau cenedlaethol Cymru gyfan presennol yw:

- Rhagnodi gwrthficrobaidd;
- Dadlygru a Diheintio/Rheoli Heintiau (WHTM 01-05); a
- Rhoi'r Gorau i Ysmygu.

Mae system gyllido ACAC wedi aros heb newid ers iddi gael ei chyflwyno'n wreiddiol. Bu newidiadau sylweddol, fodd bynnag, ym maes gwella ansawdd a gyda sefydlu AaGIC mae'n briodol adolygu'r ffordd y defnyddir y cyllid hwn.

4. Y gofynion ar gyfer gwella ansawdd mewn ymarfer deintyddol cyffredinol

Mae gwerth gwella ansawdd yn cael ei gydnabod gan weithwyr deintyddol proffesiynol ac yn seiliedig ar Reoliadau a Safonau yn ogystal â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Llywodraeth Cymru.

5. Rheoliadau

Mae Rheoliadau'r GIG (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006 a Rheoliadau'r GIG (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol)(Cymru) 2006 yn ei gwneud yn ofynnol bod y contractwr yn sefydlu, ac yn gweithredu, system sicrhau ansawdd seiliedig ar bractis. Mae system sicrhau ansawdd seiliedig ar bractis yn golygu un sy'n cynnwys system i sicrhau bod:

"... unrhyw ofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol o ran datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer ymarferwyr deintyddol wedi cael eu bodloni".

6. Cynllun Hunanasesu Sicrwydd Ansawdd (QAS)

Mae'n ofynnol i bob practis yng Nghymru gwblhau'r QAS yn flynyddol. Mae'r cynllun sefydledig hwn yn rhan allweddol o'r fframwaith sicrhau ar gyfer gofal deintyddol yng Nghymru ac yn cynorthwyo deintyddion i gwrdd â gofynion eu

contract ar gyfer "system sicrhau ansawdd". Mae'n ysgogi ymarfer ôl-fyfyriol ac wedi ei fwriadu i gynorthwyo practisau i nodi meysydd lle maent yn gwneud yn dda a meysydd lle y gallant wella.

7. Safonau Iechyd a Gofal Cymru

Mae Safonau Iechyd a Gofal Cymru (a gyhoeddwyd yn Ebrill 2015) yn berthnasol i holl sefydliadau'r GIG ac felly holl bersonél y GIG. Maent yn cynnwys y gofynion canlynol:

- Safon 3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi:

Mae gwasanaethau yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i wella'n barhaus drwy ddatblygu a gweithredu ffyrdd newydd o ddarparu gofal. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ymchwil a sicrhau bod yr ymchwil yn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau.

- Mae Safon 7.1 yn cynnwys y canlynol:

Mae'r staff yn cael eu galluogi i ddysgu a datblygu i'w llawn botensial. Mae dyletswydd ar arweinwyr unrhyw sefydliad yn y GIG i osod y cywair priodol, hybu'r diwylliant cywir a sicrhau y gall aelodau unigol o staff gyflawni eu cyfrifoldeb i ddarparu gwasanaethau diogel, o safon uchel;

Sefydliadau'r Gwasanaeth Iechyd - hyrwyddo gwella gwasanaethau'n barhaus drwy ddulliau gwell o weithio; ac

Mae'r gweithlu:

- wedi eu recriwtio'n briodol, eu hyfforddi, yn gymwys ac yn fedrus yn y gwaith y maent yn ymgymryd ag ef;
- yn cynnal ac yn datblygu cymwyseddau er mwyn bod wedi datblygu i'w llawn botensial;
- yn datblygu eu rôl; ac yn
- dangos datblygiad proffesiynol parhaus.

8. Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol

Mae Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol yn berthnasol i holl aelodau'r tîm deintyddol (nid deintyddion yn unig) ac yn cynnwys y canlynol:

- Egwyddor 7: Cynnal, datblygu a gweithio o fewn eich gwybodaeth a'ch sgiliau proffesiynol.

Mae cleifion yn disgwyl:

- Derbyn gofal o ansawdd da;
- Bod holl aelodau'r tîm deintyddol:
 - wedi eu hyfforddi'n briodol ac yn gymwysedig; a
 - yn diweddarau eu sgiliau.

Rhaid i rai sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol:

- Ddarparu gofal o safon uchel, seiliedig ar dystiolaeth gyfredol ac arweiniad awdurdodol;
- Gweithio o fewn eich gwybodaeth, sgiliau, cymhwysedd a galluoedd proffesiynol; a
- Diweddarau a datblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau proffesiynol drwy gydol eich bywyd gwaith.

9. Y Fframwaith Ansawdd

Fel rhan o 'Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol', mae Fframwaith Ansawdd ar gyfer Cymru wrthi'n cael ei ddatblygu. Bydd hwn yn tynnu ar etifeddiaeth y Cynllun Cyflawni Ansawdd, a gyflwynodd y cysyniad o fethodolegau gwella cenedlaethol ac iaith gyffredin yn sail i welliant. Fel rhan o'r Cynllun Cyflawni Ansawdd, fe wnaeth Gwella Gwasanaeth Mil o Fywydau ddatblygu a hybu hyfforddiant gwella ansawdd hyd at lefelau Efydd, Arian ac Aur fel rhan o broses drosfwaol o Wella Ansawdd Gyda'n Gilydd (IQT). Mae canllaw IQT penodol wedi cael ei ddatblygu ar gyfer timau deintyddol yng Nghymru. Cofleidiodd aelodau timau deintyddol ledled Cymru y methodolegau gwella cenedlaethol ac maent wedi cael eu sefydlu yng ngwaith Adran Ddeintyddol AaGIC; y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol; a llawer o dimau deintyddol gofal sylfaenol.

10. 'Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' - Ymateb gwasanaethau iechyd y geg a gwasanaethau deintyddol

Mae nodau pennaf ymateb gwasanaethau iechyd y geg a'r gwasanaethau deintyddol i 'Cymru Iachach' yn cynnwys yr angen i:

- Gyfoethogi lles, gallu a diddordeb y gweithlu deintyddol; a
- Chynyddu'r gwerth a gyflawnir wrth gyllido gwasanaethau a rhaglenni drwy wella; arloesi; defnyddio arfer gorau; a dileu gwastraff.

Un flaenoriaeth allweddol yw sicrhau bod timau deintyddol wedi eu hyfforddi, yn cael eu cefnogi ac yn cyflawni. Mae adnodd e-ddysgu *Cynllun Gwên ar Waith* AaGIC yn enghraifft o ymgysylltu arloesol gyda Deintyddion Sylfaenol a thimau deintyddol mewn gofal sylfaenol, eu cynorthwyo i ddarparu gofal ataliol effeithiol yn unol â'r sylfaen o dystiolaeth ac yn gyson â'r Cynllun Gwên.

11. Yr achos dros newid

Ar hyn o bryd dim ond ar gyfer deintyddion gyda chontractau'r GIG y mae'r cyllid ar gael ar gyfer archwilio clinigol neu adolygiad cymheiriaid. Fel y dangoswyd uchod, mae'r tirwedd gwella ansawdd wedi newid yn sylweddol ers cyflwyno'r gofynion ar gyfer archwiliad. Mae'n angenrheidiol adolygu'r ffordd y mae'r cyllid

yn cael ei ddefnyddio er mwyn sicrhau ei fod yn annog aelodau'r tîm deintyddol i gyd i ddefnyddio holl sbectrwm yr offer a'r systemau gwella ansawdd mewn ffordd effeithiol ac yn effeithlon.

- Caiff y gronfa ACAC flaenorol ei hailenwi yn Gronfa Gwella Ansawdd er mwyn cydnabod y sbectrwm ehangach o waith gwella ansawdd sy'n cael ei wneud yn awr gan dimau deintyddol; ac
- Mae holl aelodau'r tîm deintyddol i fod yn gymwys i hawlio cyllid os ydynt yn gweithio mewn practis deintyddol gyda chontract y GIG.

11.1 Nid yw cyllid i fod ar gael bellach i ddeintyddion sydd â chontract y GIG yn unig

Gellir dyrannu'r cyllid i holl aelodau'r tîm deintyddol sydd wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Disgwyliwn weld archwiliad dan arweiniad y Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol ac rydym yn cydnabod y bydd yna rai archwiliadau lle na fydd deintyddion yn cymryd rhan weithredol o gwbl. Bydd hyn yn annog y Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol i gymryd yr awenau a chymryd rhan mewn gwaith gwella ansawdd. Er y bydd y system ad-dalu bresennol yn parhau i ad-dalu i ddeintyddion yn uniongyrchol, disgwyli'r iddynt drosglwyddo'r cyllid i'r Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol yn eu practis. Pan fydd gwaith gwella ansawdd yn cynnwys nifer o aelodau o'r tîm deintyddol, caiff y cyllid ei ddyrannu yn ôl lefel cyfranogaeth, fydd yn seiliedig ar broses sydd i gael ei datblygu gan AaGIC.

Fel gyda'r system bresennol, bydd Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn parhau i gael ei roi i'r rheiny sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol neu bractis cwbl breifat ar ôl iddynt gwblhau darn o waith gwella yn effeithiol. Fodd bynnag, ni fydd y grwpiau hyn yn gymwys i hawlio cyllid.

11.2 Gwaith gwella yn cael ei gynnal gan un aelod o'r tîm deintyddol:

Mae AaGIC a Llywodraeth Cymru yn ymroi i annog a hybu gwaith gwella ansawdd tîm a phractis. Fodd bynnag, mae yna adegau pan fydd hi'n briodol efallai i un aelod o'r tîm deintyddol gynnal darn o waith gwella ansawdd a bydd yn gymwys i hawlio cyllid yn yr un ffordd ag y gall grwpiau wneud, ar yr amod ei fod yn bodloni'r meini prawf.

11.3 Cydnabod yr holl amrediad o systemau ac offer gwella:

Gellir dyrannu cyllid am gwblhau gwaith gwella llawn ac effeithiol, fel a gydnabyddir ac a hybir gan AaGIC. Mae'r prif systemau gwella wedi eu rhestru isod ond nid yw'r rhestr hon yn gyflawn. Bydd angen i AaGIC fod yn ddigon hyblyg i gydnabod methodolegau gwella newydd sy'n dod i'r amlwg, sy'n seiliedig ar dystiolaeth/gwybodaeth:

- Archwilio (gan gynnwys Archwilio heb fod yn Glinigol ac Archwilio Clinigol);

- Adolygu Cymheiriaid o bractis i bractis;
- E-ddysgu sy'n cynnwys cyflawni gwelliant yn y practis deintyddol/yr amgylchedd clinigol; a
- Hybu gwelliant - yn ogystal â chanfod ble mae angen gwelliant.

Gall archwilio fod yn offeryn effeithiol i nodi arferion da i'w rhannu a lle mae angen gwelliant. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn arwain at welliant, oni chymerir camau pellach i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae arnom eisiau gweld mwy o ddefnydd o fethodolegau gwella cydnabyddedig ochr yn ochr ag archwilio a dulliau sy'n hybu dysgu cyson.

11.4 Nid yw'r system bresennol yn ei gwneud yn ofynnol rhannu arferion da na choladu dysgu oddi wrth dimau deintyddol:

Mae arnom eisiau gweld system sy'n hyrwyddo rhannu arferion da a dysgu. Disgwylir i AaGIC sefydlu hyn yn yr adroddiadau, y maent yn gofyn amdanynt gan bractisau, ac yn y systemau sy'n sail i ddyfarnu cyllid. Bydd hyn yn atgyfnerthu'r angen i dimau deintyddol rannu dysgu a gwelliannau.

11.5 Systemau cefnogi nad ydynt wedi eu datblygu'n dda ar hyn o bryd mewn practis deintyddol, e.e. adrodd am ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion a dysgu:

Mae arnom eisiau i AaGIC ddatblygu ffyrdd y gallant ddefnyddio cyllid i hyrwyddo ymhellach systemau, nad ydynt wedi eu datblygu'n dda ar hyn o bryd mewn practisau deintyddol. Un esiampl yw adrodd am ddigwyddiadau diogelwch cleifion a dysgu oddi wrthynt, lle mae cryn le i ymgysylltu â thimau deintyddol er mwyn rhannu dysgu.

12 Dyrannu Adnoddau

Bydd cyllid Gwella Ansawdd Deintyddol yn parhau i gael ei gadw'n ganolog gan Lywodraeth Cymru.

Nid oes angen adnoddau ychwanegol ar gyfer y system ddiwygiedig a esboniwyd yn y Cylchlythyr hwn. Yng ngoleuni newidiadau a diwygiadau i systemau a gyflwynwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, efallai y bydd AaGIC yn y dyfodol yn penderfynu ei bod yn briodol cyllido gwelliannau ansawdd yn amlach nag unwaith yn y cylch o 3 blynedd.

13 Mecanwaith talu

Bydd Cyfarwyddwr Addysg Ôl-radd Adran Ddeintyddol AaGIC yn awdurdodi talu am waith gwella ansawdd, sydd wedi cael ei gwblhau'n effeithiol ac sy'n cwrdd â'r holl ofynion, fel y cawsant eu mynegi gan AaGIC.

NHS BSA fydd yn prosesu'r taliadau hyn, gan dynnu arian i lawr o'r gyllideb sy'n cael ei chadw'n ganolog gan Lywodraeth Cymru. Fel gyda'r system bresennol, gwneir taliadau i rai sy'n dal contract y GIG drwy systemau arferol NHS BSA.

14 Monitro ac Adrodd

Mae AaGIC wedi sefydlu Fforwm Gwella Ansawdd aml-broffesiwn, aml-sefydliad, sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Mae'r Fforwm yn derbyn gwybodaeth am weithgareddau gwella ansawdd. Bydd AaGIC yn cynnwys hyn mewn adroddiad blynyddol, gan ddisgrifio'r gwaith gwella ansawdd sydd wedi ei gyflawni gan weithwyr deintyddol cofrestredig, y mae pobl wedi ei dderbyn a'r canlyniadau. Caiff yr adroddiad hwn ei gytuno gan aelodau'r Fforwm cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, ei rannu â byrddau iechyd a'i gyhoeddi ar wefan AaGIC.